Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Llandybie**
**Llandybie**
Rhydaman
**Sir Gâr**
**SA18 3JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/10/2013**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Llandybie, tua dwy filltir i'r gogledd o dref Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin.

Mae 198 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, rhif sydd wedi cadw'n weddol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn byw yn y pentref gyda rhyw 10% yn teithio o ardaloedd cyfagos. Daw 24% o'r disgyblion o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg.

Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn naw dosbarth. Mae'r ysgol wedi ei ffrydio'n ieithyddol yng nghyfnod allweddol 2, gyda thri dosbarth cyfrwng Cymraeg a dau ddosbarth cyfrwng Saesneg.

Mae 14% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae 16% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys 2% sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Rhagfyr 2007. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llandybie yn 2013-2014 yw £3,644. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Llandybie yn safle 58 o'r 106 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn dangos cynnydd cyson a chadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol o oed cynnar iawn;
- mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- ymddygiad a medrau cymdeithasol disgyblion yn dda ar draws yr ysgol;
- mwyafrif y disgyblion a gaiff eu haddysgu yn y ffrwd Saesneg yng nghyfnod allweddol 2 yn medru defnyddio'r Gymraeg yn hyderus a naturiol ym mywyd yr ysgol;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu da fel rhan o gwricwlwm cyfoes sy'n ennyn diddordeb yr holl blant; a bod
- ansawdd yr addysgu yn gyson dda yn y rhan fwyaf o wersi.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn rhoi arweiniad cadarn a phwrpasol;
- yr uwch dîm rheoli a'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda;
- ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus;
- gan yr ysgol broses hunanarafrnu sy'n cynnwys yn gynyddol sylw i farn carfanau amrywiol o bobl; a bod
- blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn nodi blaenoriaethau clir er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.

## Argymhellion

A1 Codi safonau technoleg gwybodaeth ar draws yr ysgol

A2 Datblygu gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

A4 Sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae tasgau a gweithgareddau yn diwallu anghenion disgyblion o wahanol allu

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr fel arweinwyr strategol yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion Ysgol Llandybie yn dangos cynnydd cyson a chadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae safonau mewn gwersi a llyfrau gwaith yn gyson dda, ac mae disgyblion o bob oed a gallu yn cyflawni ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am drefnu eu gweithgareddau a thasgau eu hunain, ac yn medru gwneud penderfyniadau deallus ar sut i'w cyflawni. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi adeiladu'n ddigonol ar hyn, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt yn cyfrannu digon at gynllunio a datblygu eu dysgu eu hunain.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd. Mae'r mwyafrif yn gwrando'n ofalus ar oedolion a'i gilydd, ac yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion afael gadarn ar y Gymraeg ac mae hyfedredd llafar y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, cyfranna'r rhan fwyaf yn dda mewn gweithgareddau dosbarth gan ddefnyddio geirfa gynyddol a hynny mewn modd clir a chywir. Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu'n datblygu'n gadarn.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Medrant ddarllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn Gymraeg a Saesneg. Yn y Saesneg, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus a defnyddiant eu medrau cywain gwybodaeth yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth benodol o lyfr. Maent yn darllen gyda mynegiant a dealltwriaeth ac yn barod iawn i fynegi barn am y testun. Mae medrau darllen y mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu'n briodol yn y Gymraeg.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 afael dda ar fedrau rhifedd. Maent yn gallu defnyddio'r medrau hyn yn hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd eraill, er enghraifft mewn gwersi gwyddoniaeth, daearyddiaeth ac addysg gorfforol.

Ar draws yr ysgol, gall lleiafrif o ddisgyblion ddefnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i amrywiol bwrpasau. Mae defnydd da a chynyddol yn ddiweddar o offer technoleg gwybodaeth gan ddisgyblion. Serch hynny, anghyson yw'r defnydd i ddadansoddi data a chryfhau eu medrau ymchwil. O ganlyniad, nid yw medrau TGCh disgyblion wedi datblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol.

Mae medrau Cymraeg disgyblion drwy'r ysgol yn datblygu'n dda. Gall disgyblion o bob oed ddarllen ac ysgrifennu'n effeithiol yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae bron pob disgybl o'r ffrwd Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a mwyafrif y disgyblion a gaiff eu

haddysgu yn y ffrwd Saesneg yn medru defnyddio'r iaith yn hyderus a naturiol ym mywyd yr ysgol.

Ym mhlith y garfan a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae nifer anarferol o uchel o fechgyn ar y gofrestr anghenion arbennig, sydd wedi cael effaith amlwg ar y canlyniadau yn dilyn perfformiad 100% ym mhob maes yn 2012. Oherwydd hyn, nid yw'n bosibl gwneud dadansoddiad ystyrlon o'r data a gyhoeddwyd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau asesiadau athro ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) yn dangos cynnydd cyffredinol yn ystod y pum mlynedd hyd at 2013, ac yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. O'u cymharu gyda chanlyniadau ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, mae canlyniadau Cymraeg, mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd ym mhlith yr 50% uchaf, tra bod canlyniadau Saesneg a gwyddoniaeth ym mhlith y 50% isaf.

O ystyried canlyniadau asesiadau athro diwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5 neu uwch), bu cynnydd mewn canlyniadau Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, a chwymp mewn canlyniadau gwyddoniaeth yn 2013. Bu'r cynnydd mewn canlyniadau Cymraeg yn sylweddol. Ac eithrio Saesneg, mae'r canlyniadau hyn yn uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru.

Mae canlyniadau 2013 yn dangos bod merched yn perfformio yn arwyddocaol well na'r bechgyn ym mhob pwnc craidd. Fodd bynnag, nid yw'r patrwm hwn wedi bod yn gyson dros gyfnod.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn perfformio'n gyson is na gweddill disgyblion yr ysgol. Fodd bynnag, caeodd y bwlch yn gyson flwyddyn ar flwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf.

Ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig a phlant mewn gofal sydd yn yr ysgol, ac maent yn gwneud cynnydd priodol ar gyfer eu hoed a'u gallu, gyda chefnogaeth addas. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer.

### Lles: Digonol

Mae disygblion Ysgol Llandybie yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cadw'n iach drwy fwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd a gwneud ymarfer corff yn gyson. Maent yn ymarfer eu cyrff drwy wersi a chlybiau ar ôl yr ysgol i hyrwyddo eu hiechyd corfforol. Mae bron pob un yn teimlo'n hollol ddiogel yn yr ysgol ac yn medru troi at y pennaeth neu unrhyw aelod o staff yr ysgol am gyngor a chymorth.

Dengys y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd presenoldeb a sut mae hyn yn effeithio ar eu haddysg. Bu cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn 2012, yn dilyn cyfnod o leihad cyson. Serch hynny, bu lleihad eto yn 2013. Dros y pedair mlynedd hyd at 2012, mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod yn gyson yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Mae'r disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan yng nghymuned yr ysgol drwy eu gwaith gyda'r Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco. Ymfalchïant yn yr hyn y maent wedi ei gyfawni i wella eu hysgol. Mae eu gwaith wedi arwain at le mwy deniadol i bawb ac maent yn awyddus iawn i weithredu eu cynlluniau pellach ar gyfer y dyfodol. Mae'r disgyblion yn ymwneud yn dda â'r gymuned leol drwy eu gweithgarwch chwaraeon a chyngherddau a gwasanaethau crefyddol.

Mae ymddygiad a medrau cymdeithasol disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf ydisgyblion yn siarad ac yn ymwneud â'i gilydd yn dda yn ystod cyfnodau dysgu, wrth chwarae a chyd-weithio.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datrys problemau ac yn datblygu eu syniadau i symud ymlaen i gyfnod nesaf eu haddysg yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwella eu dysgu drwy ddefnyddio dulliau hunanarfarnu addas.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu da fel rhan o gwricwlwm cyfoes sy'n ennyn diddordeb yr holl blant.

Mae'r cynllunio'n dda ar draws yr ysgol gydag athrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant yn y ddwy ffrwd.

Mabwysiadodd yr ysgol gynlluniau gwaith newydd yn ystod y flwyddyn er mwyn cynllunio ar gyfer y medrau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd a rhifedd yn cael eu cynllunio'n gydlynus drwy'r ysgol, gan sicrhau dilyniant a pharhad da.

Mae cynllun ar gyfer datblygu llythrennedd cynnar sy'n cael ei gyflwyno yn y dosbarth meithrin yn gweithio'n dda. Mae'r cynllun yn rhedeg trwy'r Cyfnod Sylfaen ac yn amlygu plant yn effeithiol ar gyfer cefnogaeth yn gynnar.

Mae polisi trochi plant yn y Gymraeg o'r oed meithrin yn cael effaith bositif iawn ar safonau Cymraeg yn y ddwy ffrwd drwy'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i'r disgyblion gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau diwylliannol Cymreig yn y gymuned leol.

Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd materion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Gwneir hyn trwy weithgarwch y cyngor eco yn ogystal ag ystod dda o gyfleoedd eraill megis cysylltiadau effeithiol gyda theuluoedd o gefndir Mwslimaidd.

## Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn y rhan fwyaf o wersi yn gyson dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac adnoddau addysgu i ennyn ddiddordeb bron pob disgybl. Serch hynny, mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r tasgau a'r gweithgareddau bob amser yn diwallu anghenion disgyblion o wahanol allu yn ddigon effeithiol.

Mae perthynas waith dda rhwng y disgyblion a'u hathrawon, sy'n cyfrannu at ddysgu buddiol. Mae staff cynorthwyol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol, yn enwedig wrth gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda am yr holl feysydd dysgu ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ysgogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonol a systemau tracio i fesur cynnydd ac i flaenoriaethu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o system olrhain cynnydd er mwyn asesu, adnabod bylchau yn y dysgu a chynllunio'n fwriadus.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi ymsefydlu'n dda yng ngweithdrefnau'r ysgol. Yn y mwyafrif o wersi, mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn cyflawni eu gwaith, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae cefnogaeth y rhan fwyaf o athrawon i waith y disgyblion yn ystod gwersi yn adeiladol ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ymateb iddynt. Mae sylwadau ysgrifenedig yr athrawon yn datblygu'n dda ac yn annog y disgyblion i asesu eu gwaith er mwyn gwella perfformiad eu hunain.

Mae asesu parhaus yn nodwedd gref drwy'r ysgol. Mae disgyblion ac athrawon yn cytuno ar dargedau deirgwaith y flwyddyn ac mae rhain yn cael eu rhannu a'u trafod gyda rhieni. Mae'r athrawon yn gyffredinol yn trafod rhain yn rheolaidd, ac yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol ohonynt ar hyd y tymor.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi sylw da i gynnydd a datblygiad eu plant.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hrywyddo iechyd a lles disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol, yn dda drwy ei pholisïau a'i gweithdrefnau. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Ceir yma ysgol hapus lle teimla'r disgyblion yn ddiogel iawn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyson dda. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion yn gynnar ac yn sicrhau'r gefnogaeth briodol. Mae gan ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fynediad llawn i holl feysydd y cwricwlwm ac mae eu cynlluniau unigol o ansawdd da.

Gwneir defnydd da o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys y gwasanaethau lles addysg a'r gwasanaethau meddygol ac argyfwng.
Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd cyfrifoldebau ac i fod yn rhan o fywyd yr ysgol, ac maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd hynny. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch yn y gymuned leol a chaiff y disgyblion gyfleon da i fynegi barn a helpu eraill.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Llandybie yn ysgol hapus, cyfeillgar a chartrefol. Mae hi'n ysgol gynhwysol sy'n rhoi cyfleoedd da i staff a disgyblion gyfrannu tuag at eu datblygiad. Mae'r ethos yma'n un o gryfderau'r ysgol ac mae'n seiliedig ar weithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n hyrwyddo a pharchu pawb. Mae pawb yn yr ysgol am helpu ei gilydd i sicrhau bod cyfleoedd priodol iddynt ddatblygu eu doniau a'u medrau.
O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos agwedd gyfrifol ac aeddfed tuag at ei gilydd a thuag at oedolion.

Mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'r amgylchedd ffisegol. Ceir cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol. Datblygwyd ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan ddatblygu syniadau'r disgyblion a chydweithio gyda phartneriaid yr ysgol.

Mae cynlluniau ar droed i ychwanegu at adnoddau'r iard chwarae gan ddilyn argymhellion y Cyngor Ysgol. Ceir arddangosfeydd amrywiol o waith a chyfrifoldebau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar hyd rhannau o goridorau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyfleusterau caeau chwarae'r pentref lleol i ychwanegu at brofiadau chwaraeon. Nid yw'r safle cyfan yn hygyrch ond mae cynlluniau priodol yn eu lle i sicrhau hygyrchedd angenrheidiol pan fo angen. Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad cadarn a phwrpasol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad yr ysgol. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i rannu ei weledigaeth gadarn gyda'r holl staff a'r llywodraethwyr. Mae'n cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliant ac yn herio staff yn gadarnhaol ac yn effeithiol.

Mae'r uwch dîm rheoli a'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus sy'n cryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad ac mae aelodau unigol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r

ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu. Er hynny, nid ydynt yn cymryd rhan digon blaenllaw ym mhrosesau strategol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel asesu ar gyfer dysgu a datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunanarfarnu yn effeithiol ac yn seiliedig ar arsylwadau priodol o fonitro'r addysgu a dysgu gan yr uwch dîm rheoli ac aelodau eraill o'r staff addysgu.

Mae'r broses yn cynnwys adolygiad priodol o agweddau ar fywyd yr ysgol a sut mae'r rhain yn effeithio ar safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer casglu barn rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron ac mae yn rhoi ystyriaeth addas i'w sylwadau ac awgrymiadau.

Mae gan y pennaeth a'r uwch dîm rheoli ddarlun clir a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae data perfformiad yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd ac effeithiol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi meysydd priodol i'w gwella ac mae gweithdrefnau clir i'w gweithredu. Mae blaenoriaethau clir er mwyn sicrhau gwelliannau pellach i safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu, er enghraifft targedau i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol da sy'n cael effaith ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn arferion dysgu. Mae'r ysgol yn ymgymryd â rôl flaenllaw o fewn y dalgylch lleol i ddatblygu arferion cydweithio ac mae'n meithrin perthynas gadarn a chyfathrebu adeiladol rhwng partneriaid.

Mae gan yr ysgol berthynas gref iawn gyda rhieni a chyfeillion, ac mae'n elwa o gyllid sylweddol yn cael ei gyfrannu ar gyfer prynu adnoddau ac offer ychwanegol.

Mae cysylltiadau gyda'r gymuned yn llwyddiannus iawn ac yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion, megis cymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau cyhoeddus yn y pentref.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r mudiad cyn-ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n llyfn i'r dosbarth meithrin.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol ac mae'r trefniadau pontio effeithiol yn sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae'r gweithgareddau effeithiol i safoni a chymedroli o fewn yr ysgol wedi cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned dysgu broffesiynol gref sy'n galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi addysgu.

Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol.  Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus.

Mae staff ac adnoddau ariannol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu.  Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n dda.  Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymorthyddion dysgu ac mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gymorth i godi safonau drwy'r ysgol.

Mae ystod dda o adnoddau dysgu yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac ansawdd y profiadau.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Dengys canlyniadau asesiadau athro diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 bod pob disgybl wedi cyflawni hyd at y lefel ddisgwyliedig, sef Deilliant 5, ym mhob maes dysgu ac yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen. Yr oedd hyn yn sylweddol uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Yn yr un flwyddyn, roedd cyflawniadau disgyblion ar y lefel uwch na'r disgwyl, Deilliant 6, yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Gymraeg, ac mewn Datblygiad Mathemategol. Yn y maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, yr oedd cyflawniad yr ysgol ar y lefel hon yn sylweddol is na'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru.

Ym mhlith y garfan a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae nifer anarferol o uchel o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd wedi cael effaith amlwg ar y canlyniadau. O'r herwydd, nid yw'n bosibl gwneud dadansoddiad ystyrlon ar sail y data sydd ar gael.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau asesiadau athro ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) yn dangos cynnydd cyffredinol yn ystod y pum mlynedd hyd at 2013 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd. Mae'r canlyniadau ychydig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ysgolion a Chymru, er iddynt syrthio'n is na hynny yn 2012. O'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, gwelwyd amrywiaeth dros y pum mlynedd hyd at 2013, er bod cynnydd cyffredinol dros y cyfnod. Mae canlyniadau Cymraeg, mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd yn gosod yr ysgol ym mhlith yr 50% uchaf, tra bod canlyniadau Saesneg a Gwyddoniaeth ym mhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg.

O ystyried canlyniadau asesiadau athro diwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5 neu uwch), bu cynnydd mewn canlyniadau Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, a chwymp mewn canlyniadau gwyddoniaeth yn 2013. Bu'r cynnydd mewn canlyniadau Cymraeg yn sylweddol. Ac eithrio Saesneg, mae'r canlyniadau hyn yn uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Cytuno Agree | Anghytuno Disagree | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 95 | 94 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 95 | 86 | 9 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 95 | 93 | 2 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 96% | 4% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 95 | 94 | 1 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 95 | 89 | 6 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 95 | 90 | 5 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 95 | 94 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 95 | 93 | 2 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 95 | 87 | 8 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 95 | 80 | 15 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 84% | 16% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 93 | 47 | 46 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 51% | 49% | |
| | | 78% | 22% | |

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Cytuno Agree | Anghytuno Disagree | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 95 | | 83 | 12 | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | | 87% | 13% | | |
| | | | | 84% | 16% | | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 52 | 35<br>67% | 17<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 53 | 45<br>85% | 7<br>13% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 53 | 42<br>79% | 11<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 53 | 37<br>70% | 15<br>28% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 60% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 52 | 24<br>46% | 27<br>52% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 53 | 31<br>58% | 21<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 53 | 40<br>75% | 13<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 50 | 26<br>52% | 20<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 53 | 37<br>70% | 14<br>26% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 53 | 37<br>70% | 14<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 52 | 41<br>79% | 9<br>17% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 50 | 25<br>50% | 17<br>34% | 1<br>2% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 53 | 30<br>57% | 22<br>42% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 53 | 42<br>79% | 11<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 53 | 31<br>58% | 19<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 52 | 33<br>63% | 18<br>35% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 47 | 26<br>55% | 13<br>28% | 1<br>2% | 0<br>0% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 53 | 26<br>49% | 24<br>45% | 1<br>2% | 1<br>2% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 52 | 33<br>63% | 18<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dafydd Iolo Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lee James | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.